YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR


# Tymor yr Hydref 2019 – Dosbarth Derbyn Mrs Jenkins

## Bant â ni i gynllunio!

Rwy eisiau dod i'r ysgol yn y nos.
Mabon

Rwy eisiau jigsos y nos.
Eli

Hoffwn i ddysgu am y lleuad a'r sêr.
George R




Rwy eisiau dangos fy hoff dedi i bawb.
Mason

Pa anifeiliaid sy'n cysgu yn y dydd?
Kitty

Ambell waith mae Mami yn gweithio yn y nos. Pwy arall sy'n gweithio yn y nos?
Ellie Mai

Rwy eisiau gwrando ar storïau am sêr. Pam mae sêr yn yr awyr yn y nos?
Rebecca


YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD

BRYN Y MÔR

# Tymor yr Hydref 2019 – Dosbarth Derbyn Mrs Jenkins

Thema'r tymor yw:



## Pan Af i Gysgu

Dyma ein syniadau ar gyfer y tymor.

**Y Dyniaethau**

- Dysgu am newidiadau ym myd natur ym Mharc Brynmill
- Dysgu am arferion amser gwely
- Dysgu am draddodiadau Nadolig

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

- Dysgu am y lleuad a'r sêr a sut mae'r awyr yn newid liw nos
- Dysgu am ffynonellau golau ac mai absenoldeb golau ydyw tywyllwch
- Dysgu am anifeiliaid y nos

**Sgiliau Cymhwysedd Digidol:**

- Dysgu sut i ychwanegu enw at ddarn o waith
- Dysgu sut i arbed ein gwaith a'u hadfer

**Y Celfyddydau Mynegiannol**

- Tynnu lluniau o anifeiliaid y nos
- Efelychu 'Noson Serennog' gan Van Gogh
- Ymateb yn greadigol i Noson Tân Gwyllt
- Dysgu caneuon am amser gwely a hwiangerddi
- Perfformio ein Gwasanaeth Nadolig

**Iechyd a Lles**

- Chwarae gemau i ddatblygu sgiliau canolbwyntio
- Dangos gofal, parch a hoffter at ein gilydd, tuag at oedolion a'n hamgylchedd
- Dysgu am fod yn ddiogel a theimlo'n ddiogel yn y nos
- Dod yn fwy annibynnol a hyderus yn ein dysgu
- Ymarfer a datblygu sgiliau echddygol bras, sgiliau llawdrin manwl a chydsymud llaw-llygad

**Ymweliadau/Ymwelwyr**

Sioe Llygoden yr Eira

**28/11/19**

Gwasanaeth Nadolig- *Eglwys Pantygwydr*

**13/12/19**

**Cofiwch ymweld â <u>www.yggbrynymor.co.uk</u> -'adran y plant – tudalennau dosbarth' am fwy o fanylion. Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd! @YGGBrynymor1**

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Creu cornel chwarae rôl 'Tŷ Mr a Mrs Tedi' o stori *Heddwch o'r Diwedd*
- Gwrando ar lawer o straeon a cherddi sy'n ymwneud â'r thema
- Dysgu caneuon, rhigymau a hwiangerddi
- Mynegi ein hunain drwy wneud marciau, tynnu lluniau ac ysgrifennu cychwynnol

**Mathemateg a Rhifedd**

- Datblygu ein dealltwriaeth o iaith fathemategol drwy chwarae rôl a chwarae gemau
- Canu caneuon ac adrodd rhigymau rhif
- Cyfrif, trefnu cymharu a dosbarth gwrthrychau
- Dechrau dysgu adnabod ac ysgrifennu rhifau
- Ymchwilio i fesurau, siâp a phatrwm